

Pecyn Adnoddau Addysg Segontium

CS2

Y Rhufeiniaid

CS2
Y Rhufeiniaid

Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i gynnal ymweliadau hunan-dywys mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn hyblyg a gellir eu cynnal mewn nifer o ffyrdd. Anogwn athrawon i ddewis ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Wyddech chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I drefnu eich ymweliad am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i holi a yw ar gael ar y dyddiad yr hoffech ymweld.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, llenwch y ffurflen archebu ar-lein www.cadw.wales.gov.uk/learning

Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn rhai safleoedd.

Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am wneud asesiad risg cyn yr ymweliad, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo am ddim i athrawon i'w galluogi i ysgrifennu'r asesiadau risg a chynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn cynnig cyngor ar gynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.





Gweithgaredd Un

TGCh, Daearyddiaeth, Sgiliau Meddwl

Bydd angen:

- Cyfrifiadur wedi'i gysylltu â'r rhyngwyd
- Map o'r Gogledd
- Pren mesur

Roedd yna rwydwaith o ffyrdd strategol yn cysylltu Segontium â chyfres o geirydd eraill, fel Kanovium a Tomen y Mur, gyda chymorth canolfannau'r llengoedd yng Nghaer (Deva) a Chaerllion. Bwriad y ceirydd yma oedd ffrwyno'r llwythau a oedd newydd gael eu concro.

Drwy ddefnyddio Archwilio.org.uk, sef cronfa ddata Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, chwiliwch am leoliadau'r canlynol:

- Caer Rufeinig Segontium (Gwynedd),
- Kanovium (Gwynedd [Conwy]),
- Caer Leb (Gwynedd [Ynys Môn])
- Tomen y Mur (Gwynedd)

Marciwch y lleoliadau yma ar y map rydych chi wedi'i greu.

Gan ddefnyddio atlas neu fap arall sy'n cynnwys Lloegr, chwiliwch am Gaer/Deva a marcio hwnnw ar eich map.

1. Sawl milltir sydd rhwng pob un o geirydd y Rhufeiniaid?
2. Ydych chi'n credu bod un ar goll rywle?

Os ydych:

3. Ble yn eich barn chi mae yna Gaer arall yn y Gogledd nad ydyn ni wedi dod o hyd iddi eto?
4. Pam rydych chi'n credu bod yna un arall?





Gweithgaredd Dau

Celf, Mathemateg, Sgiliau Meddwl:


Bydd angen:

- Pren mesur
- Pensel

Daeth archaeolegwyr o hyd i rannau o'r gwrthrych yma wrth iddyn nhw gloddio yn Segontium.

Drwy ddefnyddio cliwiau yn y llun, cyfrifwch pa mor llydan oedd y gwrthrych a pha mor dal.

Copiwch y patrwm o'r ochr dde ar yr ochr plaen.



At beth roedd y gwrthrych yn cael ei ddefnyddio, yn eich barn chi?

O beth gafodd y gwrthrych ei wneud, yn eich barn chi?



Gweithgaredd Tri

Hanes – Cartrefi a Thai

Bydd angen:

Os ydych chi yn y Dosbarth

- Llun/map neu gynllun o Segontium
- Pensel

Os ydych chi ar y Safle


- Clipfwrdd
- Pensel
- Binocwlar (dewisol)

Maer bocsys yma yn Segontium yn dangos ble roedd yr ystafelloedd yn y gaer. 'Barics' oedd rhai o'r rhain.



Ble roedd y gwely, a ble roedd yn ffitio?

Pa bethau eraill allai'r milwr eu ffitio yn ei ystafell yn eich barn chi?



Fe welwch chi adeiladau o sawl faint gwahanol yn y gaer:

Faint o adeiladau sydd?

Pa siapiau o adeiladau allwch chi eu gweld?

Ydych chi'n credu bod adeiladau o siapiau gwahanol yn ateb dibenion gwahanol? Beth oedd yn digwyddodd ynddyn nhw?

Pa ddefnyddiau eraill fyddai wedi cael eu defnyddio i greu'r adeiladau cyfan?
Meddylwch am beth sydd ar goll erbyn hyn.

Pam mai'r garreg yn unig sydd wedi goroesi, ac nid defnyddiau eraill?



Dychmygwch:

Dewiswch ystafell yn y gaer a sefwch ynddi. Dychmygwch eich bod chi nôl yma pan oedd y rhain yn cael eu defnyddio 2000 o flynyddoedd yn ôl. **Beth sydd i'w weld, i'w glywed, i'w arogleuo ac i'w deimlo?**

Lleoliad:

Roedd yna wal amgylchynol o gwmpas y gaer.
Pam hynny, yn eich barn chi?

O'r gaer, roedd yna olygfa eithriadol o dda dros Afon Menai, sydd wedi'i chuddio erbyn heddiw gan y coed.
Pam roedd cysylltiadau da â'r môr yn bwysig i'r bobl oedd yn byw yn Segontium?





Gweithgaredd Pump

Celf a'r Dychymyg

Bydd angen:

- Pencil
- Pensiliau lliw (dewisol)

Gan ddefnyddio'ch atebion i'r cwestiynau blaenorol, tynnwch lun i ddangos eich argraff chi o rywbeth a allai fod wedi digwydd yma:



Gweithgaredd Chwech

Daearyddiaeth a Hanes (a TGCh)

Bydd angen:

- Map o Gaernarfon (OS 1:25000 ar bapur neu fap electronig, er enghraifft Google Maps)
- Awyrlun o Segontium (isod)



1. Edrychwch ar awyrlun Segontium. I ba gyfeiriad roedd y camera'n pwyntio pan gafodd y llun ei dynnu?
2. Mae sawl afon a nant yn llifo heibio i Gaernarfon. Allwch chi enwi'r tair prif ffynhonnell dŵr?
 - Rydyn ni'n credu mai un o'r ffynonellau dŵr yma yw'r rheswm y tu ôl i'r enw 'Segontium'. Pa un yw hi, yn eich barn chi?
 - Gan gadw'r rhain mewn cof, pam rydych chi'n credu bod Segontium wedi'i godi yn y fan yma?



3. Gan ddefnyddio'ch copi chi'ch hun o'r awyrlun, allwch chi labelu tair nodwedd naturiol a thair nodwedd annaturiol yn y llun? (Defnyddiwch ddau liw gwahanol i roi'r labeli)

4. Edrychwch ar enwau'r lleoedd a'r strydoedd yng Nghaernarfon, o amgylch Caer Rufeinig Segontium. Mae llawer o'r enwau hyn yn ymwneud â hanes Rhufeinig y dref. Nodwch enwau strydoedd a allai fod yn Rhufeinig, a chwiliwch am eu tarddiad nhw.

5. Gan ddefnyddio'r awyrlun, mapiau ac unrhyw ffotograffau sydd gennych o Gaernarfon, gwnewch restr o bum ffordd wahanol o ddefnyddio tir sydd i'w gweld yn nhref Caernarfon:
 - i.
 - ii.
 - iii.
 - iv.
 - v.

6. Mae Caer Rufeinig Segontium yn atyniad i dwristiaid. Rhestrwch bum lle arall o fewn deng milltir i Segontium lle byddai ymwelwyr yn hoffi mynd..
 - i.
 - ii.
 - iii.
 - iv.
 - v.



Gweithgaredd Saith

Llythrennedd

Bydd angen:

- Stori 'Breuddwyd Macsen Wledig', o'r Mabinogi.

Cymharu

Chwiliwch am y geiriau yn y stori sy'n disgrifio neu yn cymharu. Am bob ansoddair welwch chi, crëwch gymhariaeth i'w defnyddio nhw. Ym mhob cymhariaeth, rhowch fersiwn modern sy'n disgrifio sefyllfa debyg

- er enghraifft morwyn brydferth iawn. Roedd y forwyn mor brydferth â...
- castell enfawr. Roedd y castell mor enfawr â...

Chwarae rôl

Dychmygwch mai chi yw Macsen neu Helen. Mae Macsen newydd gyrraedd Caernarfon o Rufain ac wedi gwireddu ei freuddwyd – sut rydych chi'n ymateb?

Cerddi

Gan ddefnyddio deunyddiau o'r stori, ysgrifennwch gerdd am y negeseuwyr sy'n chwilio am y forwyn welodd Macsen yn ei freuddwyd. Gall y gerdd ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sydd wedi'u codi o'r stori. Beth wnaeth y negeseuwyr ei weld, ei deimlo, ei gyffwrdd, ei arogleuo a'i glywed?

Ysgrifennu

Mae'r newyddion bod Macsen wedi ymneilltuo, wedi mynd i gysgu ac wedi gwrthod cyfarch ei bobl wedi cyrraedd y papur newydd lleol yn Rhufain. Ysgrifennwch erthygl yn cofnodi'r digwyddiadau ac yn cofnodi ymateb pobl i'r ffaith bod Macsen wedi mynd.

Ymchwil

Chwiliwch am wybodaeth am y storïau eraill yn y Mabinogi a'r cymeriadau a'u hanes nhw yng Nghymru. Fe allech chi dynnu llun map o Gymru i ddangos ble roedden nhw. Paratowch anerkhiad o ryw ddwy neu dair munud i'r dosbarth.

Gweithgareddau Creadigol

1. Dyluniwch a chrëwch bypedau a set theatrig ar gyfer neuadd neu ffair ganoloesol.
2. Dyfeisiwch sgript i ddrama bypedau wedi'i seilio ar stori Breuddwyd Macsen Wledig.
3. Hysbysebwh y perfformiad i'ch cyd-ddisgyblion gan ddefnyddio posteri, tocynnau a rhaglenni.
4. Ewch ati i ymarfer y ddrama a'i pherfformio.
5. Gallai'r disgyblion ysgrifennu a chyhoeddi adolygiadau o'r ddrama, fel rhan o arddangosfa, gan gynnwys brasluniau a ffotograffau, neu ar ffurf erthygl i bapur newydd y dosbarth.



Drama a symud

Ar gyfer priodas Macsen a Helen, byddai gwledd fawr wedi cael ei pharatoi.

Mewn grwpiau, trafodwch pa swyddi oedd yna yn y gegin. Drwy feimio, gadewch i bob unigolyn ddangos beth yw ei swydd. Dylai pawb arall geisio dyfalu beth yw'r swydd.

- Mewn paru, A a B. Sefwch gan wynebu'ch gilydd, a chledrau'r dwylo bron â chyffwrdd â'i gilydd.
- Bydd A yn dewis nifer o weithgareddau yn y gegin ac yn meimio'r rhain yn araf ac yn ofalus.
- Rhad i B gopïo'r meim, fel pe bai'n ddrych.

Gwaith grŵp:

Mae rhywbeth ofnadwy wedi digwydd yn y gegin. Rhaid ichi drafod fel grŵp beth sydd wedi digwydd a ble yn y gegin mae wedi digwydd.

Ffurfiwch olygfa lonydd o'r digwyddiad, er mwyn dangos sut y byddech chi'n ymateb, ond heb siarad. Cofiwch na fyddai pawb yn ymateb yn yr un ffordd â'i gilydd.

Cyn ichi adael yr olygfa, caiff pob cymeriad gyfle i ddweud **UN** gair i ddisgrifio sut mae'n teimlo ar yr eiliad y digwyddodd y peth.